# Pedr yn dianc o’r carchar

**www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther**





**Cyn i Iesu ddychwelyd i’r nefoedd dywedodd wrth ei ddisgyblion i fynd a dweud wrth bawb, drwy’r byd i gyd, y Newyddion Da mai ef oedd y Meseia roedd Duw wedi ei addo.**



**Un o ddisgyblion Iesu oedd Pedr. Rhannodd â llawer o bobl y Newyddion Da am Fab Duw, yr Achubwr a atgyfododd, Iesu Grist. Roedd y Brenin Herod eisiau rhwystro i’r bobl glywed am Iesu.**



**Arestiwyd Pedr a’i garcharu gan Herod. Yna roedd Pedr am gael ei ddedfrydu wedi gwyliau’r Pasg. Bu Cristnogion yma ac acw’n gweddïo nos a dydd y byddai Duw’n cadw Pedr yn ddiogel ac yn ei ryddhau.**



**Am dridiau bu Pedr mewn cyffion ac yn cael ei warchod gan filwyr y brenin. Y noson cyn i Herod ei ddedfrydu aeth Pedr i gysgu’n dawel yn ffyddiog y byddai Duw gydag ef.**



**Yng nghanol y nos deffrodd angel Pedr a llanwyd y carchar â goleuni llachar. “Cod ar dy draed yn sydyn,” meddai’r angel. “Gwisga dy ddillad, rho dy sandalau am dy draed a dilyna fi.”**



**Gwnaeth Pedr yr hyn y gorchmynnodd yr angel iddo ei wneud. Wrth iddo sefyll, syrthiodd y cadwyni haearn, cryf roedd milwyr Herod wedi eu cloi am ei ddwylo i’r llawr ac roedd Pedr yn rhydd!**



**Dilynodd Pedr yr angel heibio’r milwyr oedd yn cysgu. Agorodd ddrysau a giatiau haearn y carchar heb i unrhyw un eu hagor. Roedd Pedr yn meddwl ei fod yn breuddwydio.**



**Unwaith roedden nhw allan ar y stryd diflannodd yr angel. Gwyddai Pedr mai Duw oedd wedi anfon yr angel i’w achub rhag y Brenin Herod. Prin y gallai ei ffrindiau gredu fod Pedr wedi dod yn rhydd.**